Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

JAMES, JOHN (bu farw 1705), gweinidog Annibynnol

Enw: John James
Dyddiad marw: 1705
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Addysgwyd ef yn Ystrad Wallter neu Abertawe. Ordeiniwyd ef yn Llanybri, 1688. Estynnwyd rhodd iddo o ddwy bunt gan y Bwrdd Presbyteraidd (16 Ionawr 1690) i'w galonogi yn ei waith yn y Cruglas (Panteg). Ategir ei fod yn y Cruglas yng nghofnodion yr ' Common Fund ' neu'r Bwrdd Presbyteraidd (1690-2), a'i fod yn rhydddeiliad ac wedi derbyn punt o gydnabyddiaeth gan ei gynulleidfa. Yr oedd yn bresennol yn Nhirdoncyn, 17 Tachwedd 1697, ar ddydd neilltuo Llewelyn Bevan i Gwmllynfell a Gellionnen. Yn ôl adroddiad wardeiniaid plwyf Henllan Amgoed (4 Medi 1705) pregethai i gynulleidfa Lewis Thomas - plaid y Calfiniaid. Bu farw yn y flwyddyn honno.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

D. Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru, o'r amser y daeth y Cymry i Ynys Brydain hyd yr amser presennol* (Caerfyrddin 1816), 594

Minutes of the Pres. Board, 16 Ionawr 1690

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690â€“1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 291

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 384

Llyfr Eglwys Tirdoncyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 17 Tachwedd 1697

Henllan Amgoed churchwardens' accounts, 4 Medi 1705

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, J. D., (1953). JAMES, JOHN (bu farw 1705), gweinidog Annibynnol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JAME-JOH-1705

Copïo'r cliprwydd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government